# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


12/04/2021

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Rydym wedi cael gwybod bod unigolyn yn ein hysgol wedi profi'n bositif am COVID-19. Hoffem eich sicrhau nad oes achos pryder ar unwaith a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Gig Cymru Test, Trace, Protect (TTP), ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd i ni.

Nodwyd bod disgyblion ac aelodau staff Blwyddyn 5 yn yr ysgol **o bosibl** yn dod i gysylltiad agos â'r unigolyn sydd wedi profi'n gadarnhaol. Rydym yn gofyn i ddisgyblion ac aelodau staff Blynyddoedd 5 yn yr ysgol hunanynysu a gweithio gartref tra bod ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal. Byddwn ni, neu'r Tîm TTP, yn cysylltu â chi o fewn y 24 / 48 awr nesaf i gadarnhau a oes angen cyfnod o hunanynysu am 10 diwrnod, neu a all disgyblion a staff ddychwelyd i'r ysgol.

Os yw'n ofynnol i'ch plentyn hunanynysu, gall pawb arall ar yr aelwyd barhau fel arfer a mynd i'r gwaith / ysgol (fodd bynnag, os bydd eich plentyn yn dod yn symptomatig, byddai angen i'r aelwyd gyfan hunanynysu wedyn).

Mae'r broses hon o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a lle mae ysgolion yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros ddychryn.

Os bydd unrhyw achosion cadarnhaol pellach, bydd yr holl ddiweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor

https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa, os ydych chi, eich plentyn neu unrhyw un rydych yn byw gyda nhw, yn dechrau arddangos y symptomau canlynol, mae'n rhaid i chi i gyd aros gartref a dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

· Peswch parhaus newydd a/neu

· Tymheredd uchel

· Colli neu newid yn eich ymdeimlad arferol o flas neu arogl.

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl y tu allan i oriau ysgol, gyda neu heb unrhyw un o symptomau COVID-19 neu os oes angen iddo hunanynysu, rhowch wybod i ni drwy ffonio Delta Wellbeing ar 0300 333 2222 neu drwy e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Yn ystod oriau ysgol ac ar gyfer pob mater arall sy'n ymwneud ag iechyd, rhowch wybod i'ch ysgol yn uniongyrchol.

Os ydych chi neu'ch plentyn yn teimlo'n sâl a bod angen cyngor meddygol arnoch, ffoniwch GIG 111 neu ewch i'w wefan 111.wales.nhs.uk, neu ffoniwch eich meddyg teulu lleol.

Mae'n bwysig ein bod i gyd yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn cadw pellter cymdeithasol, yn parhau i olchi ein dwylo'n aml ac yn gwisgo gorchudd wyneb lle bo angen i atal y feirws rhag lledaenu cymaint ag y gallwn.

Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth a ddarparwyd gennym yn galonogol ac yn ddefnyddiol yn ystod yr hyn rydym yn ei werthfawrogi a all fod yn gyfnod pryderus. Fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu.

***C Davies***
Pennaeth / Headteacher

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
Eco-Sgolion
International School Award
Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG